Beibl i Blant
yn cyflwyno

Eseia yn gweld y dyfodol



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Jonathan Hay

addaswyd gan: Mary-Anne S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Eseia yn broffwyd. Ei waith oedd dweud wrth bobl beth roedd ...

... Duw yn ei ddweud. Doedd pobl ddim bob amser eisiau clywed Gair ...

... Duw, ond daliodd Eseia ati. Bu'n pregethu yn ystod y ...

... blynyddoedd pan oedd pedwar brenin gwahanol yn rheoli.

Jerwsalem oedd canolfan y Brenin Wseia fel brenin. Ar y dechrau, fe wnaeth Duw fendithio Wseia am ei fod yn gwneud beth oedd yn dda yng ngolwg Duw.



Ond aeth yn ddyn balch a stopiodd wrando ar Dduw. Aeth yn sâl gyda'r gwahanglwyf a gorfod byw ar ei ben ei hun nes iddo farw.



Wseia oedd y brenin am dros 60 o flynyddoedd. Ar ôl iddo farw, daeth ei fab Jotham yn frenin yn ei le a rheoli am un deg saith o flynyddoedd.



Fe wnaeth Duw fendithio Jotham am ei fod yn gwrando ar Dduw trwy Eseia a'r proffwydi eraill.

Enw mab y brenin Jotham oedd Ahas. Daeth hwn yn frenin pan oedd yn ugain oed, a bu'n frenin yn Jerwsalem am un deg chwech o flynyddoedd. Doedd e'n poeni dim am Dduw. Fe wnaeth e addoli ...

... eilun-ddelwau a duwiau ffug, ac arwain llawer o bobl Dduw i wneud yr un peth. Fe wnaeth Eseia ei rybuddio, ond doedd Ahas ddim yn barod i wrando ar Dduw. Buodd farw pan oedd e dim ond yn 35 oed.



Fe wnaeth Duw fendithio Heseceia, y brenin nesaf, achos fe wnaeth e gael gwared â'r eilun-ddelwau a'r duwiau ffug, a gweddio ar y Duw go iawn.

Pan ymosododd byddin y gelyn ar Jwda, roedd Heseceia'n gwybod bod ei fyddin yn rhy wan i ennill. Gofynnodd i Eseia weddio a gofyn am help Duw.

Anfonodd Eseia y neges hon at y Brenin. Dyma mae'r ARGLWYDD yn ei ddweud: "Paid bod ag ofn y gelyn....

byddan nhw'n methu."

Yn fuan wedyn, fe wnaeth Duw i fyddin y gelyn adael heb ymladd Heseceia o gwbl.

Doedd y bobl o'i amgylch ddim yn meddwl

llawer am Dduw, ond roedd Eseia yn meddwl llawer amdano.

Un diwrnod cafodd



weledigaeth. Mae cael gweledigaeth yn debyg i freuddwydio, ond bod chi ddim yn cysgu. Yn y ...

... weledigaeth,
gwelodd Eseia
pa mor wych a
sanctaidd ydy'r
ARGLWYDD.

"Pwy dw i'n mynd i'w anfon?" gofynnodd Duw yn y weledigaeth. "Dyma fi, anfon fi," oedd ateb Eseia. Roedd e'n barod i wneud beth bynnag roedd Duw yn gofyn iddo, a mynd i ble bynnag roedd Duw yn ei anfon.

Efallai bod Eseia yn meddwl fod Duw am ei anfon at bobl bell, bell i ffwrdd, pobl oedd heb glywed am Dduw.

Ond wnaeth e ddim. Dywedodd wrth Eseia am siarad gyda'i bobl ei hun, yn ei wlad ei hun.

Roedd angen iddo ddweud wrthyn nhw fod Duw yn flin gyda nhw am eu bod yn gwneud drwg.

Roedd angen i Eseia ddweud pethau eraill wrth ei bobl – pethau rhyfeddol am Berson fyddai'n achubwr cryf, ...

... person fyddai'n dod i achub y bobl rhag eu pechod a rhag eu holl elynion. Enw'r Iddewon ar y Person hwn oedd "Meseia".

Ond er eu bod nhw'n disgwyl i Dduw anfon Meseia, roedd llawer o'r bobl yn byw fel petai e byth yn mynd i ddod.



Mae popeth ddywedodd Eseia am Y Meseia wedi ei sgwennu yn ei lyfr. Er iddo ysgrifennu'r pethau hyn i lawr ...



... cannoedd o flynyddoedd cyn iddyn nhw ddigwydd, byddai popeth ddywedodd Eseia am y Meseia yn dod yn wir.



Dywedodd Eseia fod Duw ei hun am roi

arwydd iddyn nhw. "Bydd merch ifanc sy'n wryf yn feichiog ac yn cael mab," meddai, "a bydd y plentyn yn cael ei alw yn Emaniwel."

Roedd pobl yn gwybod fod Eseia yn siarad

am y Meseia achos doedd hi ddim yn bosibl i ferch fod yn wyryf a chael

plentyn. Ac ystyr yr enw Emaniwel ydy Duw gyda ni!

“Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e’n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, tywysog heddwch.”





Roedd Eseia mor siŵr fod Duw yn mynd i gadw ei addewid, roedd e'n siarad fel petai'r peth wedi digwydd yn barod. Proffwydo ydy'r gair am hyn.

Dywedodd Eseia fod y Meseia yn mynd i fod yn fawr a byddai'n gwneud pethau mawr. Ond gorchmynnodd Duw Eseia i ddweud wrth y bobl fod y Meseia'n mynd i ddioddef a cael ei ladd. Mae'n siwr fod Eseia yn

methu ...

... deall sut oedd hi'n bosib i'r Meseia gael ei frifo os oedd yn fawr a chryf,
Ond wnaeth e ddim dadlau gyda Duw - dim ond ail adrodd beth oedd Duw am iddo ei ddweud. Byddai Duw yn gwneud i'r broffwydoliaeth ddod

yn wir.

Roedd y Meseia yn dod – nid at yr Iddewon yn unig. Dywedodd Duw wrth Eseia y byddai'r Meseia yn 'olau i'r cenhedloedd'. Y cenhedloedd ydy'r holl bobl yn y byd sydd ddim yn Iddewon. Mae Duw yn caru pawb, ac roedd ei Feseia yn dod i fendithio pawb, ac i gynnig achubiaeth trwy'r byd i gyd.

Eseia yn gweld y dyfodol

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Eseia 1, 6, 7, 9, 53

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16